sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

## Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Adroddiad Ymgynghori



Mai 2024

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1

2. Camau Allweddol wrth Baratoi'r CDLl 2

3. Y Cytundeb Cyflawni 4

3.1 Cynllun Cynnwys Cymunedau 4

4. Camau Cyn-adneuo'r Cynllun 6

4.1 Cyflwyniad 6

4.2 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - Sesiwn 1 7

4.3 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - Sesiwn 2 7

4.4 Cam Safleoedd Ymgeisio 7

4.5 Galwad am Safleoedd Ymgeisio Tywod a Graean 8

4.6 Galwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr 8

4.7 Ymgynghoriad ar Safleoedd a Gyflwynwyd ar y 'Gofrestr Safleoedd Ymgeisio' 8

4.8 Y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir 8

4.9 Y Strategaeth a Ffefrir - Themâu Allweddol y Sylwadau 10

5. Adnau Diwygiedig Cyntaf 11

6. Diwygiedig Ail Adneuo 12

7. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig & Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 15

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Dyddiadur y CDLl Diwygiedig |
| **Atodiad 2** | Cytundeb Cyflawni'r CDLl Diwygiedig:<br>2a – Amserlen Ddrafft y CDLl Diwygiedig (Chwefror 2018)<br>2b– Ymatebion i Gytundeb Cyflawni'r CDLl Diwygiedig (Adroddiad i'r Cyngor Sir, 13 Mehefin 2018)<br>2c – Cofnodion y Cyngor Sir (13 Mehefin 2018)<br>2d – Amserlen y CDLl Diwygiedig (Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2020)<br>2e – Amserlen y CDLl Diwygiedig (Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru ar 25 Awst 2022)<br>2f – Amserlen y CDLl Diwygiedig (Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru Ionawr 2024) |
| **Atodiad 3** | Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig:<br>3a – Ymatebion i Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig (Adroddiad i'r Cyngor Sir, 15 Mai 2019)<br>3b - Cofnodion y Cyngor Sir (15 Mai 2019) |
| **Atodiad 4** | Ymatebion i Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **Atodiad 5** | Ymatebion i'r Adroddiad Cwmpasu ac Adroddiad Cychwynnol Yr Arfarniad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **Atodiad 6** | Cofnodion y Cyngor Sir (13 Ionawr 2021) – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin Sylwadau a oedd wedi dod i law a newidiadau â ffocws (i'r Cynllun Adnau 1af) |

| | |
|---|---|
| **Atodiad 7** | Cofnodion y Cyngor Sir (9 Mawrth 2022) - Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin Y Camau Nesaf a Chythundeb Cyflawni Diwygiedig, gan gynnwys Papur Sefyllfa ar Ffosffadau |
| **Atodiad 8** | Cofnodion y Cyngor Sir (7 Rhagfyr 2022) - Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin Ail Fersiwn Adneuo Drafft |
| **Atodiad 9** | Themâu allweddol i ddod i'r amlwg fel rhan o'r ymgynghoriad i'r CDLl Diwygiedig Ail Adneuo. |
| **Atodiad 10** | Ymgynghoriad Cyfryngau Cymdeithasol |
| **Atodiad 11** | Cyfathrebu anfonwyd |
| **Atodiad 12** | Ymatebion a dderbyniwyd i’r CDLl Diwygiedig Ail Adneuo |
| **Atodiad 13** | Ymatebion a dderbyniwyd i’r ACI/ARC sy’n cyd-fynd â’r CDLl Diwygiedig Ail Adneuo |
| **Atodiad 14** | Ymatebion a dderbyniwyd i’r ymgynghoriad Newidiadau Ffocws ar yr ACI/ARC |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 bod cynghorau yn llunio Cynllun Datblygu Lleol. Un o nodau'r CDLl yw gwneud system y cynllun datblygu yn fwy perthnasol, yn fwy cynhwysol ac yn fwy deniadol i gymunedau lleol. Ar ôl cael ei fabwysiadu, bydd y CDLl Diwygiedig yn disodli'r CDLl mabwysiedig presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Bydd y CDLl Diwygiedig yn darparu'r strategaeth ddatblygu a'r fframwaith polisi ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'i fabwysiadu hyd at 2033.

1.2 Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn adeiladu ar hynny a baratowyd i gyd-fynd â chyhoeddi'r CDLl Diwygiedig Adneuo Cyntaf. Mae'n adlewyrchu'r penderfyniad dilynol i baratoi ail Adnau er mwyn adlewyrchu rhai materion cyd-destunol a oedd wedi codi ers cyhoeddi'r Cynllun Adnau cyntaf. Yn hyn o beth mae'n cynnwys, er gwybodaeth, fanylion yr ymatebion a gafwyd i'r Cynllun Adneuo cyntaf a'r Newidiadau â Ffocws a gynigir o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw. Nad yw'r sylwadau a dderbyniwyd i'r Cynllun Adneuo cyntaf yn cael eu cario ymlaen fel sylwadau ffurfiol a wnaed yn briodol ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion gwybodaeth. Yn ogystal, nid oedd y Newidiadau â Ffocws fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Sir ar 13 Ionawr 2021 wrth hysbysu cynnwys yr ail Adnau yn destun cyhoeddiad ffurfiol ar gyfer ymgynghori.

1.3 Paratowyd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn unol â gofynion Rheoliad 16A o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015, a'r cyngor a roddir yn y fersiwn drafft o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol 2019, ac mae'n nodi:

- Y camau a gymerwyd i hyrwyddo ac ymgysylltu drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl a sut y mae hyn yn cydymffurfio â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn y Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys unrhyw wyro oddi wrtho.
- Y cyrff a hysbyswyd ac y cysylltwyd ac yr ymgynghorwyd â hwy yn y cam cyfranogi cyn-adneuo (Rheoliad 14) a'r cam ymgynghori cyn-adneuo (Rheoliad 15).
- Crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y camau cyn-adneuo, gan gynnwys cyfanswm nifer y sylwadau a ddaeth i law a sut y mae'r rhain wedi dylanwadu ar y broses o baratoi'r CDLl Adneuo.
- Amlinelliad o'r materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â'r CDLl Diwygiedig Adneuo cyntaf gan gynnwys cyfanswm y sylwadau a sut yr ystyriwyd y rhain a sut y llywiodd y rhain y newidiadau â ffocws fel y cynigiwyd yn wreiddiol.
- Crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ynghylch y Safleoedd Ymgeisio a'r Safleoedd Amgen.
- Crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ynghylch yr Ail Gam Adneuo, gan gynnwys dadansoddiad o elfennau o'r sylwadau yn y Cynllun.

1.4 Caiff yr adroddiad hwn ei ddiweddaru yn ôl yr angen ar ôl cwblhau cam y CDLl Adneuo a bydd yn ffurfio'r Adroddiad Ymgynghori a gaiff ei gyflwyno yn unol â Rheoliad 22 (2) (c) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

## 2. Camau Allweddol wrth Baratoi'r CDLl

2.1 Mae'r gwaith o baratoi'r CDLl yn cynnwys nifer o gamau allweddol. Dechreuodd gyda'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol fel y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mehefin 2018 ac yn wreiddiol roedd i fod diweddu gyda mabwysiadu'r cynllun, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, o ganlyniad i faterion cyd-destunol, yn arbennig: yr heriau iechyd cyhoeddus a wynebir o ganlyniad i Covid-19 a'r cyfnodau clo cysylltiedig; a, chyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar lefelau ffosffad yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol , mae hyn wedi arwain at oedi'r gwaith paratoi.

2.2 Yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar y 9fed o Fawrth 2022 penderfynwyd paratoi ail fersiwn Adneuo o'r CDLl Diwygiedig yn ogystal â Chytundeb Cyflawni Diwygiedig i'w cytuno gyda Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, cafodd Cytundeb Cyflawni Diwygiedig ei baratoi a derbyniodd Gytundeb Llywodraeth Cymru ar y 25ain o Awst 2022.

2.3 Mae'r CDLl wedi datblygu ers iddo ddechrau yn 2018, ar ôl paratoi Adroddiad Adolygu'r CDLl mewn perthynas â'r CDLl mabwysiedig presennol, a phenderfyniad y Cyngor i baratoi'r CDLl Diwygiedig. Hyd yn hyn, mae'r Cynllun wedi mynd drwy Gamau Allweddol 1 – 4 fel y nodir isod.

2.4 Mae camau allweddol y broses baratoi fel a ganlyn:

- Cam Allweddol 1 - Cytundeb Cyflawni (Rheoliad CDLl 5-10)
- Cam Allweddol 2 - Cyn-adneuo – Paratoi a Chyfranogi (Rheoliad CDLl 14)
- Cam Allweddol 3 - Cyn-adneuo - Ymgynghori â'r Cyhoedd (Rheoliad CDLl 15, 16)
- Cam Allweddol 4 - Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (Rheoliad CDLl 17 - 21)
- Cam Allweddol 5 - Cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru i'w archwilio (Rheoliad CDLl 22)
- Cam Allweddol 6 - Archwiliad Annibynnol (Rheoliad CDLl 23)
- Cam Allweddol 7 - Derbyn a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad CDLl 24)
- Cam Allweddol 8 - Mabwysiadu (Rheoliad CDLl 25)
- Cam Allweddol 9 - Monitro ac Adolygu (Rheoliad CDLl 37)

2.5 Mae'r camau allweddol y cynllun a gymerwyd hyd yn hyn wedi'i nodir isod:

**Adroddiad Adolygu**

Ionawr 2018

- Cynnull Panel Ymgynghorol Tachwedd 2017
- Penderfynodd y Cyngor ddechrau ar y Gwaith o baratoi CDLl Rhagfyr 2018

**Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni (Reg 9)**

Mehefin 2018

- Gwahoddiad ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol (5/2/18 – 29/8/18)
- Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni (5/2/18 – 23/3/18)
- Sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol May 2018
- Cytundeb Cyflawni a gytunwyd gan y Cyngor (13/6/18)
- Cytundeb Cyflawni a gytunwyd gan Llywodraeth Cymru (28/6/18)

**Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir (Reg 15)**

Rhagfyr 2018

- Ymgynghoriad Strategaeth a Fferfrir (12/12/18 – 8/2/19)
- Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu, Cofrestr Safleoedd Ymgeisio ac Galwad am Safleoedd Ymgeisio Tywod a Gaean (12/12/18 – 8/2/19)
- Galwad am Safleoedd Sipswn a Theithwyr (28/1/19 – 8/4/19)

**Ymgynghoriad CDLl Adnau Diwygiedig Cyntaf (Reg 17)**

Ionawr & Medi 2020

- Cyneradwyaeth y Cyngor ar gyfer cychwyn ymgynghoriad CDLl Adnau 1af (13/11/19)
- Ymgynghoriad y CDLl Ddiwygiedig Adneuo Cyntaf (29/1/20 – 27/3/20 & 11/9/20 – 2/10/20)
- Sylwadau a dderbyniwyd a Newidiadau Ffocws a adroddwyd I'r Cyngor (13/1/21)

**Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni**

Tachwedd 2020

- Cymeradwyaeth y Cyngor o Gytundeb Cyflenwi Diwygiedig (22/10/20)
- Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (10/11/20)

**Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni**

Awst 2022

- Cymeradwyaeth y Cyngor o Gytundeb Cyflenwi Diwygiedig (9/3/22)
- Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (25/8/22)

**Ymgynghoriad yr Ail CDLl Adnau Diwygiedig (Reg 17)**

Chwefror 2023

- Cyneradwyaeth y Cyngor ar gyfer cychwyn ymgynghoriad Ail CDLl Adnau (7/12/22)
- Ymgynghoriad yr Ail CDLl Adnau Diwygiedig (17/2/23 - 14/4/23)

**Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni**

Ionawr 2024

- Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (2/1/24)

**Newidiadau â Ffocws ar yr ACI / ARC yn cynnwys Atodiadau**

Chwefror 2024

- Ymgynghoriad Newidiadau Ffocws ar yr ACI / HRA (19/2/24- 3/4/24)

## 3. Y Cytundeb Cyflawni

3.0.1 Gofyniad cyntaf proses baratoi'r CDLl yw paratoi Cytundeb Cyflawni. Datganiad cyhoeddus o ymrwymiad y Cyngor i baratoi'r CDLl Diwygiedig yw'r Cytundeb Cyflawni. Mae'n pennu'r amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun ac yn manylu, yn ei Gynllun Cynnwys Cymunedau, ar sut a phryd y bydd y Cyngor yn ymgynghori ac yn cysylltu â grwpiau, sefydliadau ac unigolion wrth iddo baratoi'r Cynllun. Mae hefyd yn gytundeb rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru ar sut y bydd y Cynllun yn cael ei baratoi, gan gynnwys nodi:

- Yr amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun hyd at ei fabwysiadu;
- Y Cynllun Cynnwys Cymunedau, gan gynnwys dulliau adborth; ac
- Yr adnoddau y mae'r Cyngor yn eu rhoi i baratoi'r Cynllun.

3.0.2 Roedd y Cytundeb Cyflawni cychwynnol ar gael at ddibenion ymgynghori rhwng 5 Chwefror a 23 Mawrth 2018 a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo yn unol â hynny. Dylid cyfeirio at Atodiad 1 o ran Dyddiadur y CDLl. Yn sgil rhoi ystyriaeth briodol i'r ymatebion a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ar 13 Mehefin 2018, cyflwynwyd y Cytundeb Cyflawni drafft i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb Cyflawni ar 28 Mehefin 2018.

3.0.3 Gwnaed diwygiadau dilynol i'r Cytundeb Cyflawni i adlewyrchu effeithiau Covid-19 ac yna cyhoeddi Canllawiau CNC ar lefelau ffosffad o fewn yr ACA Afonol gwarchodedig. Cyhoeddwyd diwygiadau ym mis Tachwedd 2020, Awst 2022, Ionawr 2024.

3.0.4 Mae Atodiad 2 yn nodi'r amserlen a'r diwygiadau iddo ar gyfer Camau Allweddol Proses y CDLl a gymerwyd o'r Cytundeb Cyflawni.

### 3.1 Cynllun Cynnwys Cymunedau

3.1.1 Mae'r Cynllun cynnwys Cymunedau yn nodi pam mae'n bwysig cynnwys y gymuned. Mae'n nodi pwy y dylid ei gynnwys ac yn awgrymu sut i gymryd rhan ym mhroses y CDLl. Mae'n hanfodol er mwyn cyflawni cynllun sydd â pherchenogaeth leol ac mae'n cyfreithloni'r polisïau a fydd yn llywio'r gwaith o ddosbarthu defnyddiau tir a datblygiad yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

3.1.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn llawn cyferbyniadau gydag economi a thirwedd amaethyddol ardaloedd gwledig y Sir yn cyferbynnu â'r ardal drefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain. Mae amrywiaeth y boblogaeth (gan gynnwys dosbarthiad, oedran, cyflogaeth a diwylliant) yn golygu ei bod yn dasg heriol cynnwys y gymuned ym mhroses y CDLl.

3.1.3 Nododd y Cynllun Cynnwys Cymunedau nifer o ffyrdd presennol y mae'r Cyngor yn cysylltu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd, a phartïon eraill. Mae'r dull yn ceisio sicrhau cymaint o gynulleidfa â phosibl ar gyfer y CDLl a chynyddu'r cyfleoedd i gysylltu. Nodir y rhain yn adran 3.4 o'r Cytundeb Cyflawni a cheir rhagor o fanylion yn Nyddiadur y CDLl Diwygiedig (Atodiad 1).

3.1.4 Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu helaeth yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol a

fforymau.  Roedd y sesiynau hyn yn helpu i nodi'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir, ystyried yr opsiynau strategol ar gyfer maint a lleoliad twf, a phennu'r amcanion ar gyfer dyfodol ardal y Cynllun.

3.1.5 Sefydlwyd rhestr bostio yn gynnar ym mhroses y CDLl lle cafodd aelodau'r cyhoedd ac ymgyngoreion (statudol ac anstatudol) eu hysbysu trwy lythyr neu e-bost, o ddiweddariadau paratoi’r Cynllun. Mae copïau o ohebiaeth a anfonwyd i’w gweld yn Atodiad 11.

3.1.6 Mae’r table canlynol yn manylu ar y digwyddiadau a’r dulliau o ymgysylltu â’r cyhoedd a phartïon â diddordeb.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Panel Cynghori | Cynhaliwyd 13 o gyfarfodydd:<br>2017: 9/11/17; 17/11/17;<br>2018: 19/1/18; 8/5/18; 17/7/18; 1/10/18; 26/10/18<br>2019: 24/4/19; 24/9/19<br>2020: 28/7/20<br>2021: 5/1/21<br>2022: 19/10/22; 30/11/22 |
| Fforwm Rhanddeiliad Allweddol | Cynhaliwyd 2 gyfarfod: 23/5/18 & 13/9/18 |
| Fforwm Datblygwyr | Cynhaliwyd 2 gyfarfod: 5/7/18 & 20/9/18 |
| Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned | 30/7/18 |
| Digwyddiadau Eraill | • Cyflwyniad i’r Grŵp Plaid Cymru (2/2/18)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Llafur (21/2/18 & 7/3/18)<br>• Cyflwyniad i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (8/3/18)<br>• Cyflwyniad i asiantaid cynllunio (16/3/18)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Annibynnol (19/3/18)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Annibynnol (25/6/18)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Plaid Cymru (9/7/18)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Annibynnol (4/7/19)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Llafur (11/9/19)<br>• Cyflwyniad i’r Grŵp Annibynnol (17/9/19)<br>• Sesiynau galw heibio I Cynghorwyr (10 & 18/10/19) |
| Sesiynau Galw Heibio yr Adnau Diwygiedig Cyntaf | Roedd 2 sesiwn ym mhob lleoliad. Roedd Sesiwn 1 rhwng 10am a 1pm ac roedd Sesiwn 2 rhwng 2pm a 7pm.<br>• 3 Chwefror 2020: Canolfan Gymunedol Llangadog, Heol Dyrfal, Llangadog<br>• 5 Chwefror 2020: Neuadd y Dref Llanelli, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli<br>• 6 Chwefror 2020: Neuadd Goffa Pontyberem, Heol Coalbrook, Pontyberem<br>• 10 Chwefror 2020: Clwb Bowlio Dan Do Dinefwr, Manor Road, Rhydaman<br>• 11 Chwefror 2020: The Gate, Heol y Pentre, Sanclêr<br>• 12 Chwefror 2020: Festri Capel Aberduar, Heol Bro Einon, Llanybydder |

| | |
|---|---|
| | • 13 Chwefror 2020: Llyfrgell Caerfyrddin, 9 Stryd San Pedr, Caerfyrddin |
| Sesiynau Galw Heibio yr Ail Adnau Diwygiedig | • 27 Chwefror 2023: Llyfrgell Newydd, Rhydaman (10.00 – 19.00)<br>• 28 Chwefror 2023: Canolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn, Castell Newydd Emlyn (12.00 – 19.00)<br>• 1 Mawrth 2023: Ystafell Bwyllgor, Neuadd Goffa Pontyberem, Heol Coalbrook, Pontyberem (12.00 – 19.00)<br>• 6 Mawrth 2023: Hwb, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin (10.00 – 19.00)<br>• 7 Mawrth 2023: Y Gât, Heol Y Pentref, Sanclêr (12.00 – 19.00)<br>• 7 Mawrth 2023: Neuadd Gymunedol Llangadog, Heol Dyrfal, Llangadog (12.00 – 19.00)<br>• 8 Mawrth 2023: Neuadd y Dref, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli (10.00 – 19.00) |
| System ymgynghori ar-lein (a system swyddfa gefn ategol) | Defnyddiwyd porth ymgynghori ar-lein (Opus Consult) i hwyluso'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, y CDLl Diwygiedig Adneuo 1af a'r 2il CDLl Diwygiedig Adneuo. |

# 4. Camau Cyn-adneuo'r Cynllun

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r tasgau allweddol a gyflawnwyd fel rhan o elfen cyn-adneuo proses y CDLl. Mae'r cam hwn yn y broses o lunio'r Cynllun yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig wrth lywio ffurf a chyfeiriad strategol y Cynllun yn y dyfodol.

4.1.2 Mae rhai o'r elfennau a'r tasgau allweddol a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cam paratoi a chyfranogi Cyn-adneuo fel a ganlyn. Dylid cyfeirio at Atodiad 1 mewn perthynas â dyddiadur y CDLl i gael rhagor o fanylion am gwmpas a diben ac o ran y cyfranogwyr a'r dyddiadau cyhoeddi ac adrodd.

4.1.3 Nid yw'r rhestr ganlynol yn cynnwys popeth:

- Casglu tystiolaeth ac adolygu data a gwybodaeth sylfaenol (gan gynnwys Adroddiad Adolygu'r CDLl, Adroddiadau Monitro Blynyddol, Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd)
- Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd Drafft
- Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol
- Ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned
- Cyhoeddi Papurau Pwnc

- Cyhoeddi at ddibenion ymgynghori y fersiwn Cyn-adneuo Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir ynghyd ag Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Cyhoeddi papurau pwnc a thystiolaeth bellach
- Sesiynau i Aelodau'r Cyngor Sir gan gynnwys Panel Ymgynghorol y CDLl, sesiynau galw heibio a phresenoldeb grwpiau gwleidyddol

4.1.4 Roedd y camau Cyn-adneuo allweddol hefyd yn cynnwys y Broses Safleoedd Ymgeisio a chyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir.

## 4.2 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - Sesiwn 1

4.2.1 Cynhaliwyd sesiwn cyntaf y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin, ar 23 Mai 2018. Hwyluswyd y digwyddiad gan gynrychiolwyr o Gymorth Cynllunio Cymru ochr yn ochr ag Adain Flaen-gynllunio yr Awdurdod. Dosbarthwyd pecynnau cynrychiolwyr i'r rhai oedd yn bresennol.

4.2.2 Mae manylion y sesiwn, cyflwyniadau ac adborth wedi'u cynnwys yn Adroddiad Adborth y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol fel y'i cyhoeddwyd ar dudalennau gwe y CDLl Diwygiedig. Gallwch weld hyn drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216449/key-stakeholder-forum-meeting-23-05-18-c.pdf

## 4.3 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - Sesiwn 2

4.3.1 Cynhaliwyd ail gyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin, ar 13 Medi 2018. Hwyluswyd y digwyddiad gan gynrychiolwyr o Gymorth Cynllunio Cymru ochr yn ochr ag Adain Flaen-gynllunio yr Awdurdod. Dosbarthwyd pecynnau cynrychiolwyr i'r rhai oedd yn bresennol.

4.3.2 Mae manylion y sesiwn, cyflwyniadau ac adborth wedi'u cynnwys yn Adroddiad Adborth y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol fel y'i cyhoeddwyd ar dudalennau gwe y CDLl Diwygiedig. Gallwch weld hyn drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216448/key-stakeholder-forum-meeting-130918.pdf

## 4.4 Cam Safleoedd Ymgeisio

4.4.1 Rhwng 5 Chwefror a 29 Awst 2018, gofynnodd y Cyngor i dirfeddianwyr, rhanddeiliaid, datblygwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyflwyno safleoedd ymgeisio ar gyfer yr holl gynigion datblygu defnydd tir yn y sir. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn eang a chyflwynwyd dros 920 o safleoedd ymgeisio. Cyhoeddwyd y gofrestr safleoedd ymgeisio ar 12 Rhagfyr 2018. Roedd hwn hefyd ar gael ar wefan y Cyngor lle roedd cyfle i gyflwyno sylwadau.

4.4.2 Wrth ystyried y safleoedd ymgeisio, cysylltwyd â chyfres o ymgyngoreion technegol ac ymgyngoreion eraill fel rhan o'r broses asesu, a hynny'n bennaf i nodi unrhyw

gyfyngiadau a allai effeithio ar gyflawni safleoedd. Roedd canlyniad y broses hon yn sail i'r gwaith o ddewis safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl Diwygiedig cyntaf ac ail Adneuo.

## 4.5 Galwad am Safleoedd Ymgeisio Tywod a Graean

4.5.1 Cynhaliwyd y 'galwad am safleoedd tywod a graean' rhwng 12 Rhagfyr 2018 ac 8 Chwefror 2019, mewn ymateb i Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw cronfeydd wrth gefn digonol ar gyfer cyfnod y Cynllun. Er bod cyflenwad digonol (ar y cyd â Cheredigion a Sir Benfro) ar hyn o bryd, mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi diffyg posibl o ran darpariaeth adnoddau tywod a graean (dros gyfnod o 15 mlynedd).

4.5.2 Wrth geisio mynd i'r afael â'r uchod, cyflwynwyd dau safle yn sgil y 'galwad am safleoedd tywod a graean'. Roedd y ddau yn canolbwyntio ar safleoedd â chaniatâd cynllunio presennol fel a ganlyn:

Fferm Llwynjack, Llanymddyfri – atebydd C.J. Lewis
Fferm Cwmgwyn, Llanymddyfri – atebydd D.A. Lewis

## 4.6 Galwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

4.6.1 Cynhaliwyd yr alwad am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr rhwng 28 Ionawr ac 8 Ebrill 2019. Cyflwynwyd cyfanswm o 9 safle i'w hystyried, yr oedd pob un ohonynt yn ardal Llanelli. Ystyriwyd canfyddiadau'r safleoedd hyn yn fanwl a chawsant eu llywio yn unol â darpariaethau'r fethodoleg asesu safleoedd a gyhoeddwyd ar y cyd â'r ymarfer galwad am safleoedd.

## 4.7 Ymgynghoriad ar Safleoedd a Gyflwynwyd ar y 'Gofrestr Safleoedd Ymgeisio'

4.7.1 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y safleoedd hynny a gyflwynwyd fel rhan o'r 'Galwad am Safleoedd Ymgeisio' a gynhaliwyd yn 2018. Rhoddodd hyn gyfle i bawb a wnelont â'r mater gyflwyno eu sylwadau ar y 926 o safleoedd a gyflwynwyd.

4.7.2 Fel rhan o'r broses hon, cyflwynwyd nifer sylweddol o sylwadau, sef cyfanswm o oddeutu 4,000. Defnyddiwyd y rhain, lle bo'n briodol i lywio'r gwaith o ystyried a dewis safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl Adneuo cyntaf ac wedyn wrth baratoi'r ail CDLl Adneuo.. Nid oedd yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisio yn destun y broses adrodd ddemocrataidd.

## 4.8 Y Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir

4.8.1 Cyhoeddwyd Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig, ynghyd â'r dogfennau ategol cysylltiedig, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol rhwng 12 Rhagfyr 2018 ac 8 Chwefror 2019. Anfonwyd llythyrau a negeseuon e-bost at bob ymgynghorai a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni a'r rhai yng nghronfa ddata/rhestr bostio yr ymgynghoriad.

4.8.2 Roedd y dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd eu gweld:

- Fersiwn Cyn-adneuo Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir
- Fersiwn Cyn-adneuo Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir – Fersiwn hawdd ei ddarllen

- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol - Adroddiad Cychwynnol: Y Crynodeb Annhechnegol
- Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol - Adroddiad Cychwynnol
- Cofrestr Safleoedd Ymgeisio -Asesiad Cychwynnol
- Adroddiad Adolygu CDLl Sir Gaerfyrddin
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – y Strategaeth a Ffefrir
- Profion Cadernid: Hunanasesiad - Strategaeth a Ffefrir

4.8.3 Roedd copïau o'r dogfennau uchod ar gael ar dudalennau gwe CDLl y Cyngor ac yn y lleoliadau adneuo canlynol:

- Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin
- Yr Hwb, Stryd y Cei, Rhydaman
- Yr Hwb, Stryd Stepney, Llanelli
- Swyddfa'r Gwasanaeth Cynllunio, Swyddfeydd y Cyngor, Llandeilo, a
- Pob llyfrgell gyhoeddus yn ystod oriau agor arferol

4.8.4 Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys cyfle i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r gofrestr safleoedd ymgeisio. Cafodd yr Adroddiad Adolygu o ran y CDLl mabwysiedig presennol ei gyhoeddi hefyd ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar y cyd â'r fersiwn Cyn-adneuo Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir.

4.8.5 Cafodd copïau o'r ymatebion eu cyflwyno'n briodol i'r Cyngor Sir, ynghyd â diweddariadau i'r polisïau strategol yn deillio o'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Cychwynnol (gan sicrhau bod modd gwneud newidiadau'n gyflym ac yn effeithiol) ar 15 Mai 2019. Mae copïau o'r ymatebion ynghyd â'r argymhellion a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gael i'w gweld ar-lein.

4.8.6 Cyflwynwyd cyfanswm o 346 o sylwadau ar draws yr ystod o ddogfennau ymgynghori. Cyflwynwyd y rhain gan amrywiaeth o gyrff, sefydliadau ac unigolion ac fe'u rhennir fel a ganlyn:

- Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir –269 o sylwadau
- Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol - 2 o sylwadau ac Adroddiad Cychwynnol – 11 o sylwadau
- Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 62 o sylwadau
- Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – 0 sylw
- Galwad am Safleoedd Tywod a Graean - 2 sylw

4.8.7 Nododd yr ymatebion perthnasol a ddaeth i law yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn-adneuo (y Strategaeth a Ffefrir) nifer o faterion. Ystyriodd y Cyngor y materion hyn yn fanwl a cheisiodd ymdrin â hwy neu roi eglurhad yn ôl yr angen.

4.8.8 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau a fyddai, ym marn y Cyngor, yn tanseilio'n sylweddol y dull strategol a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau a oedd yn gofyn am newidiadau penodol mewn perthynas â'r CDLl Diwygiedig wrth iddo symud ymlaen i gamau yn y dyfodol. Roedd sylwadau eraill yn gofyn am ragor o dystiolaeth ac yna ei chynnwys fel rhan o gynnwys, polisïau a chynigion y CDLl Adneuo.

## 4.9 Y Strategaeth a Ffefrir - Themâu Allweddol y Sylwadau

4.9.1 Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd 269 o sylwadau mewn perthynas â'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir. Cyflwynwyd y rhain gan amrywiaeth eang o ymatebwyr gan gynnig cyfraniad adeiladol ar gyfer y CDLl Diwygiedig wrth iddo symud ymlaen drwy ei broses baratoi.

4.9.2 Mae llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwaith o baratoi'r cynllun datblygu yn ailadroddol o ran ei natur, a bod ei gynnwys a'r sylfaen dystiolaeth yn datblygu mewn ymateb i newidiadau o ran dull a chanllawiau. Yn hyn o beth, wrth i'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig symud yn ei flaen tuag at y Cynllun Adneuo, bydd rhagor o fanylion yn ymddangos ac yn cael eu hymgorffori. Cyfeiriwyd yn nodedig at y ffaith nad oedd y dystiolaeth ganlynol ar gael adeg llunio'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir. Yn hyn o beth, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at yr angen i gryfhau'r canlynol:

- Asesiad Ynni Adnewyddadwy.
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.
- Asesiad wedi'i ddiweddaru o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.
- Yr Effaith ar yr Iaith Gymraeg.
- Tystiolaeth o Ddichonoldeb ynghylch Tai.
- Tystiolaeth o Weithgarwch Economaidd a Thwf Cyflogaeth.

4.9.3 Hefyd daeth pwysigrwydd cydweithio ar draws sefydliadau i'r amlwg fel thema gyson yn y sylwadau, gan gynnwys yr angen i weithio gyda thirfeddianwyr a datblygwyr i ddwyn safleoedd yn eu blaenau a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi eu cynnwys yn y Cynllun.

4.9.4 Mae'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud ag elfennau o dystiolaeth mewn perthynas â dosbarthiad twf - gan gynnwys graddfa, math a lleoliad datblygiadau a sut maent yn gysylltiedig â'r dystiolaeth oedd ar gael bryd hynny o ran yr Asesiad o'r Farchnad Dai a'r Arolygon Anghenion Gwledig. Yn hyn o beth, cafwyd sylwadau yn cefnogi lefel y twf, tra bod eraill yn ei herio gyda'r bwriad o gynyddu neu leihau'r gofyniad.

4.9.5 O ran sylwadau'n ymwneud â gwrthwynebiadau i'r Strategaeth a Ffefrir, mae'r rhain yn canolbwyntio ar y themâu canlynol yn bennaf:

- Lefel y twf a nodwyd yn y Cynllun a'r modd y caiff ei ddosbarthu i leoliadau ac aneddiadau cynaliadwy.
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg - Canlyniad lefel/dosbarthiad y twf tai a gynigir o ran yr Iaith Gymraeg.
- Dylai'r Cynllun unioni methiant y CDLl presennol i gyflawni yn unol â'r disgwyl.
- Diffyg eglurder ynghylch y 6% o hyblygrwydd a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir.
- Y berthynas leoliadol rhwng tai a swyddi – Mae angen egluro'n well y cysylltiad rhwng gofyniad tai'r cynllun a'i darged ar gyfer swyddi.
- Cyfeirio at Safleoedd Strategol nad ydynt yn cael eu cyflwyno.

- Cyfeiriwyd at y diffyg ffocws strategol o ran cyfraniad ynni adnewyddadwy i'r Cynllun. Yn wir, cafodd y mater ei godi'n benodol gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb.
- Posibilrwydd o fethu â nodi lefel yr angen am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a dyrannu safle neu safleoedd yn y Cynllun Adneuo i ddiwallu unrhyw angen a nodwyd.

4.9.6 Mae rhai gwrthwynebwyr wedi defnyddio'r ymgynghoriad fel cyfle i wneud sylwadau mewn perthynas â safleoedd penodol neu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf mewn aneddiadau penodol. Nodir nad oedd y mwyafrif helaeth o'r sylwadau yn codi materion a arweiniodd at newid y Strategaeth a Ffefrir. Lle y derbyniwyd pwyntiau, roedd y rhain yn bennaf yn ymwneud â newid geiriad polisïau yn hytrach na newidiadau mwy sylfaenol i'r Cynllun. Gweler Atodiad 3a am y sylwadau a ddaeth i law a sylwadau ac argymhellion y swyddogion.

## 5. Adnau Diwygiedig Cyntaf

5.1 Cyhoeddwyd y CDLl Adnau Diwygiedig Cyntaf, ynghyd â'r dogfennau ategol a oedd yn cyd-fynd ag ef, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol rhwng 29 Ionawr 2020 a'r 27 Mawrth 2020. Ychwanegwyd at hyn gyfnod ymgynghori pellach o 11 Medi 2020 i 2 Hydref 2020 gan adlewyrchu effaith y Pandemig Covid a'r cyfnod clo cysylltiedig ar allu'r cyhoedd a phartïon â diddordeb i gael gafael ar ddogfennau a gynhwysir mewn adeiladau cyhoeddus.

5.2 Anfonwyd llythyrau ac e-byst at bob ymgynghoriad a nodwyd o fewn y Cytundeb Cyflawni a'r rhai o fewn y gronfa ddata ymgynghori/rhestr bostio.

5.3 Gwnaed y dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn unol â chynnwys y Cytundeb Cyflawni.

- CDLl Adnau Diwygiedig [Cyntaf]
- Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Y Cytundeb Cyflawni;
- Hunan Asesiad y Profion Cadernid
- Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol
- Asesiad Effaith Cydraddoldebau
- Cofrestr Safleoedd Ymgeiswyr ac Asesiad Cychwynnol
- Strategaeth a Ffefrir
- Papurau Pwnc
- Tystiolaeth a dogfennau ategol

5.4 Fel rhan o'r ymgynghoriad cafodd cyfres o sesiynau galw heibio eu cynnal ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i grwpiau, sefydliadau, partïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd drafod a dysgu mwy am y CDLl gan y Swyddogion o'r Adran Blaengynllunio a oedd yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y saith lleoliad a restrir ym mharagraff 3.2.5.

5.5 Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe gafwyd nifer sylweddol o ymatebion gan amrywiaeth o gyrff, sefydliadau, cwmnïau, cymunedau a phartïon â diddordeb, gyda sylwadau yn cwmpasu bron pob agwedd ar gynnwys y Cynllun.

5.6 Derbyniwyd cyfanswm o 1,508 o ymatebion mewn perthynas â'r Cynllun Adnau Cyntaf gyda 1,174 yn gwrthwynebu ei gynnwys. O gyfanswm y sylwadau roedd tua 1,000 mewn ymateb i gynnwys neu beidio â chynnwys safle o fewn y Cynllun, tra bod y gweddill yn ymwneud â sylwadau ar gynnwys y datganiad ysgrifenedig a materion polisi.

5.7 Nodwyd themâu allweddol i ddod i'r amlwg fel rhan o'r ymgynghoriad yn yr adroddiad i gyfarfod y Cyngor Sir ar y 13 Ionawr2021. Gellir gweld y themâu allweddol hyn a'r adroddiad, gan gynnwys sylwadau a'r Newidiadau â Ffocws arfaethedig trwy'r ddolen canlynol: Agenda for Cyngor Sir on Dydd Mercher, 13eg Ionawr, 2021, 10.00 yb (llyw.cymru)

5.8 Cyfeirir at yr Asesiad Covid – 19 a baratowyd ar y cyd â'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (fel y'i cyflwynir i'r Cyngor Sir ar yr 22ain Hydref 2020).

## 6. Diwygiedig Ail Adneuo

6.1 Ers cyhoeddi'r CDLl Diwygiedig Adneuo 1af, bu nifer o ddigwyddiadau y tu allan i reolaeth y Cyngor sy'n golygu bod angen ystyried a diwygio cynnwys y Cynllun ymhellach. Yn fwyaf blaenllaw ymhlith y rhain roedd mewn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd Cymru yn Erbyn Targedau Ffosfforws (f) , a gychwynnwyd trwy argymhelliad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i fabwysiadu targedau llymach o faetholion cysylltiedig. llygredd. Yn dilyn hyn, cytunodd y Cyngor i amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a chaniatawyd paratoi CDLl Diwygiedig Ail Adneuo. Rhoddodd hyn amser i gasglu tystiolaeth hanfodol a datblygu opsiynau lliniaru i fynd i'r afael â'r mater ffosffadau. Mae hefyd wedi caniatáu ystyried COVID-19, yr agenda datgarboneiddio, argyfwng natur, TAN15, a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

6.2 O ganlyniad, penderfunodd y Cyngor baraoti CDLl Diwygiedig Ail Adneuo yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2022. Hefyd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod, roedd y Papur Sefyllfa ar Ffosffadau lle penderfynwyd sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer Afon Tywi, datblygu ei gylch gorchwyl a pharatoi Cynllun Rheoli Maetholion. Mae dolen i Adroddiad y Cyngor wedi'i chynnwys yn Atodiad 7.

6.3 Penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo cynnwys y CDLl Diwygiedig Ail Adneuo Drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar 7 Rhagfyr 2022.

6.4 Cyhoeddwyd y CDLl Diwygiedig Ail Adneuo, ynghyd â'i ddogfennau ategol cysylltiedig, ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol rhwng 17 Chwefror a 14 Ebrill 2023.

6.5 Y dogfennau a roddwyd ar Adnau ac ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus oedd:
- Ail CDLl Diwygiedig Adneuo ( 2nd Deposit Local Development Plan (yn cynnwys y Datganiad Ysgrifenedig a'r Cynigion a'r Mapiau Mewnosod)
- Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig – CDLl Diwygiedig Ail Adneuo
- Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Ionawr 2020)
- Adroddiad Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (CDLl Diwygiedig Ail Adneuo)

6.6 Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau cefndir a thystiolaeth hefyd.

6.7 Fel rhan o'r ymgynghoriad cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw heibio ar draws Sir Gaerfyrddin. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i grwpiau, sefydliadau, partïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd drafod a dysgu mwy am y CDLl gan y Swyddogion o'r Adain Blaengynllunio a oedd yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y saith lleoliad a restrir ym mharagraff 3.2.5.

6.8 Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe gafwyd nifer sylweddol o ymatebion gan amrywiaeth o gyrff, sefydliadau, cwmnïau, cymunedau a phartïon â diddordeb, gyda sylwadau yn cwmpasu bron pob agwedd ar gynnwys y Cynllun.

6.9 Derbyniwyd 1334 o ymatebion i ymgynghoriad CDLl Diwygiedig Ail Adneuo, gyda 979 yn gwrthwynebu ei gynnwys, a 306 o gefnogaeth, a 49 wedi'u tynnu'n ôl. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o nifer y sylwadau a dderbynnir yn erbyn pob un o'r adrannau a'r polisïau yn y CDLl. Mae'r sylwadau wedi'u cynnwys mewn dogfennau cyflwyno/arholi a gellir eu gweld drwy'r system porth ar-lein.

| Section | | Representations | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Total | Object | Support |
| 2. Beth yw'r Cynllun Adneuo? | | | | |
| | Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 1 | 1 | 0 |
| 3. Dylanwadau ar y Cynllun | | 2 | 2 | 0 |
| 4. Sir Gaerfyrddin – Cyd-destun Strategol | | 4 | 4 | 0 |
| 5. Nodi Materion | | 5 | 3 | 2 |
| 6. Gweledigaeth ar gyfer "Un Sir Gâr" | | 2 | 1 | 1 |
| 7. Amcanion Strategol | | 7 | 4 | 3 |
| 8. Twf Strategol a Dewisiadau Gofodol | | 13 | 9 | 4 |
| 9. Strategaeth Newydd | | 8 | 4 | 4 |
| 10. Y Clusterau | | 1 | 0 | 1 |
| 11. Polisïau | | 12 | 12 | 0 |
| | SP1: Twf Strategol | 11 | 9 | 2 |
| | SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg | 23 | 8 | 15 |
| | SG2: Safleoedd with Gefn | 6 | 5 | 1 |
| | SG3: Penrhyn Pen-bre | 6 | 0 | 6 |
| | SP2: Adwerthu a Chanol Trefi | 4 | 2 | 2 |
| | SP3: Dosbarthu Cynaliadawy – Fframwaith Anheddu | 14 | 5 | 9 |
| | SD1: Terfynau Datblygu | 159 | 128 | 31 |
| | SP4: Dull Cynaliadwy a Ddarparu Cartrefi Newydd | 20 | 18 | 2 |
| | HOM1: Dyraniadau Tai | 544 | 425 | 119 |
| | HOM2: Tai o fewn Terfynau Datblygu | 1 | 0 | 1 |
| | HOM3: Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig | 30 | 16 | 14 |
| | HOM4: Tai mewn Aneddiadau Gweldig Anniffiniedig | 14 | 9 | 5 |
| | HOM5: Addasu neu Isrannu Anheddau Presennol | 1 | 0 | 1 |
| | HOM7: Adnewyddu Adeiladau Adfeiliedig new Adawedig | 5 | 4 | 1 |
| | HOM8: Carafanau Preswyl | 1 | 0 | 1 |
| | SP5: Strategaeth Tai Fforddiadwy | 7 | 7 | 0 |
| | AHOM1: Darparu Tai Fforddiadwy | 4 | 3 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | AHOM2: Tai Fforddiadwy – Safleoedd Eithriadau | 5 | 3 | 2 |
| | SP6: Safleoedd Strategol | 1 | 0 | 1 |
| | SP7: Employment and the Economy | 3 | 2 | 1 |
| | EME1: Cyflogaeth – Dioleglu Safleoedd Cyflogaeth | 4 | 3 | 1 |
| | EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig | 17 | 14 | 3 |
| | EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyrannwyd | 3 | 3 | 0 |
| | SP8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru | 14 | 10 | 4 |
| | WL1: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru | 7 | 5 | 2 |
| | SP9: Seilwaith | 1 | 0 | 1 |
| | INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio | 3 | 2 | 1 |
| | INF2: Cymunedau Iach | 1 | 1 | 0 |
| | INF3: Band Eang a Thelathrebu | 1 | 1 | 0 |
| | INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli – gwaredu dŵr wyneb y dalgylch | 5 | 0 | 5 |
| | INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus | 2 | 1 | 1 |
| | SP10: Darpariaeth Sipswrn a Theithwyr | 51 | 47 | 4 |
| | SP11: Yr Economi Ymwelwyr | 14 | 13 | 1 |
| | VE1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr | 1 | 0 | 1 |
| | VE2: Lletty Gwyliau | 5 | 4 | 1 |
| | VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Safleoedd Gwersylls Eraill nad ydynt yn barhaol | 5 | 3 | 2 |
| | VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Safleoedd Gwersylla Parhaol Eraill | 5 | 3 | 2 |
| | SP12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy | 10 | 6 | 4 |
| | PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: Cynaliadwyedd a Chreu Lleoedd | 8 | 3 | 5 |
| | PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas | 7 | 2 | 5 |
| | PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas – Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd | 9 | 1 | 8 |
| | PSD5: Datblygu a'r Economi Gylchol | 2 | 1 | 1 |
| | PSD7: Diolgelu Mannau Agored | 30 | 29 | 1 |
| | PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd | 2 | 2 | 0 |
| | PSD9: Hysbysebion | 1 | 0 | 1 |
| | PSD12: Llygredd Golau ac Aer | 7 | 5 | 2 |
| | SP13: Datblygu Gwledig | 12 | 12 | 0 |
| | RD1: Anheddau Newydd yn lle un bresennol mewn Cefn Gwlad Agored | 1 | 1 | 0 |
| | RD2: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl | 4 | 4 | 0 |
| | RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd | 4 | 4 | 0 |
| | RD4: Addasu ac Ailddefnyddio Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Amhreswyl | 1 | 1 | 0 |
| | SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol | 6 | 1 | 5 |
| | NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigriw | 2 | 1 | 1 |
| | NE4: Datblygiad o fewn Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr | 3 | 1 | 2 |
| | NE5: Rheoli'r Arfordir | 3 | 0 | 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | NE6: Datblygu'r Arfordir | 1 | 0 | 1 |
| | NE7: Coastal Change Management Area | 5 | 2 | 3 |
| | SP15: Protection and Enhancement of the Built and Historic Environment | 4 | 2 | 2 |
| | BHE1: Listed Buildings and Conservation Areas | 2 | 1 | 1 |
| | BHE2: Landscape Character | 55 | 47 | 8 |
| | SP16: Newid yn yr Hinsawdd | 12 | 6 | 6 |
| | CCH1: Ynni Adnewyddadwy o fewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol | 6 | 4 | 2 |
| | CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol | 11 | 7 | 4 |
| | CCH3: Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 8 | 7 | 1 |
| | CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr | 7 | 4 | 3 |
| | CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd | 2 | 1 | 1 |
| | CCH6: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd | 3 | 3 | 0 |
| | CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd a Phlannu Coed | 7 | 5 | 2 |
| | SP17: Trafnidiaeth a Hygyrchedd | 6 | 6 | 0 |
| | TRA1: Gwelliannau i'r Seilwaith Trafnidiaeth a Phriffyrdd | 3 | 1 | 2 |
| | TRA2: Teithio Llesol | 3 | 3 | 0 |
| | TRA4: Coridorau Rheilffyrdd Segur | 3 | 3 | 0 |
| | SP18: Adnoddau Mwynol | 13 | 6 | 7 |
| | MR1: Cynigion Mwynau | 2 | 1 | 1 |
| | MR2: Clustogfeydd Mwynau | 2 | 2 | 0 |
| | MR3: Ardaloedd Diogelu Mwynau | 2 | 2 | 0 |
| | SP19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 2 | 1 | 1 |
| | WM2: Cynigion Tirlenwi | 1 | 1 | 0 |
| | WM3: Tir Amaethyddol – Gwaredu Gwastraff Anadweithiol | 2 | 2 | 0 |
| 12. Monitro a Gweithredu | | 2 | 0 | 2 |
| 13. Geirfa | | 1 | 0 | 1 |
| Atodiad 3 – Canllawiau Cynllunio Atodol | | 1 | 0 | 1 |
| Atodiad 4 – Safleoedd Mwynau | | 1 | 1 | 0 |
| Atodiad 7 – Taflwybr Tai | | 2 | 2 | 0 |

6.10 Mae Atodiad 9 yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaw i'r amlwg fel rhan o'r ymgynghoriad i'r Ail Gynllun Adnau. Mae Atodiad 12 yn cynnwys crynodeb ac ymateb i'r symwadau a dderbyniwyd i'r CDLl Diwygiedig Ail Adneuo.

## 7. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig & Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

7.1 Mae'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn bodloni ei ofynion statudol. Pwrpas hyn yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol, ac awgrymu mesurau i wneud y mwyaf o'r

effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol, pan fo'n berthnasol. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol cyfunol, ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, elfennau o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol, ac ymhellach mae'n cynnwys ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, gan gynnwys Datganiad Ardal CNC a'r Ddyletswydd Adran 6. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ddogfen annibynnol ac mae'n asesu a fyddai'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Drwy gydol y gwaith o'u paratoi, derbyniwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid i helpu i lywio'r broses hon. Er bod llawer wedi cael sylw ers hynny ac wedi'u hymgorffori yn y dogfennau priodol, gellir dod o hyd i'r holl sylwadau a gafwyd ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 4: Ymatebion i Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Atodiad 5: Ymatebion i Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Adroddiad Cychwynnol.
- Atodiad 14: Ymatebion a gafwyd i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n cyd-fynd â'r 2$^{il}$ CDLl Adneuo.
- Atodiad 15: Ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Focus Change ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/ Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Chwefror 2024)

7.2 Bydd angen cynhyrchu dogfennau Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ychwanegol yn dilyn y broses arolygu i sicrhau bod unrhyw newidiadau pellach i'r cynllun yn cael eu sgrinio'n briodol, a bod gofynion y rheoliadau perthnasol yn cael eu bodloni.